

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

# Uwch Swyddog Cydymffurfiaeth
# Ardal y Dwyrain
# Diogewlch Tân Busnes

Pecyn Gwybodaeth Ymgeisydd




# Croeso gan Stewart Forshaw, Dirprwy Brif Swyddog Tân

Pan fydd pobl yn meddwl am y Gwasanaeth Tân ac Achub, maen nhw'n tueddu i feddwl am Ddiffoddwyr Tân yn ymateb i alwadau brys. Er bod hyn yn wir, mae'r swyddi a'r cyfrifoldebau o fewn Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn mynd yn llawer pellach na'r ddelwedd draddodiadol hon.

Yn ogystal â Diffoddwyr Tân, mae'r Gwasanaeth yn cyflogi pobl mewn amrywiaeth o swyddi amrywiol a heriol, ac mae'r gwaith hollbwysig sy'n cael ei wneud y tu ôl i'r llenni yr un mor hanfodol i helpu i wneud Gogledd Cymru yn lle mwy diogel i fyw ynddo, i weithio ynddo ac i ymweld ag ef.

Rydym yn deall gwerth atal digwyddiadau rhag digwydd yn y lle cyntaf ac mae ein timau Diogelwch Tân yn gwneud llawer iawn o waith i ddiogelu pobl ac eiddo Gogledd Cymru drwy leihau nifer yr achosion o dân a lleihau effeithiau tân.

Mae ein timau diogelwch cymunedol yn cynnal archwiliadau diogel ac iach mewn cartrefi ledled y gymuned, gan sicrhau bod aelodau bregus ein cymunedau yn cael cyngor a chefnogaeth i gadw'n ddiogel, tra bod ein timau diogelwch tân Busnes yn cynnal archwiliadau diogelwch tân mewn busnesau ac eiddo nad ydynt yn gartrefi ledled yr ardal. Ond mae'r ddau dîm yn rhannu'r un nod, sef cadw pobl yn ddiogel.

Mae ein timau Diogelwch Tân yn llawn brwdfrydedd am faterion diogelwch ac yn rhagweithiol wrth ddarparu gwybodaeth, cyhoeddusrwydd ac anogaeth i atal tanau a marwolaethau ac anafiadau cysylltiedig mewn cartrefi ac mewn gweithleoedd.

Ein gwerthoedd sylfaenol yw ymdrechu am ragoriaeth, gwasanaethu cymunedau Gogledd Cymru a thrin pobl yn dda. Rydym ni eisiau i bobl sydd â'r un gwerthoedd ymuno â'n tîm i'n helpu ni i barhau i wneud Gogledd Cymru yn lle diogel i fyw ynddo, gweithio ynddo ac ymweld ag ef.




# Pwy ydym ni

Yng Ngwasanaeth Tan ac Achub Gogledd Cymru, ein pwrpas yw Atal, Amddiffyn ac Ymateb. I wneud hyn rydym yn cyflogi mwy na 850 o staff ym maes gweithredol a rolau cefnogi.

Rydym yn helpu i amddiffyn ardal sy'n gorchuddio tua 2,400 milltir sgwâr a poblogaeth breswyl o dros 700,000 o bobl, yn ogystal a channoedd o miloedd o ymwelwyr sy'n teithio i mewn ac allan o Ogledd Cymru bob blwyddyn.

Ar gyfartaledd, rydyn ni'n mynd i oddeutu 2,000 o danau a 1,000 o argyfyngau heblaw tan megis gwrthdrawiadau traffig ffyrdd a digwyddiadau llifogydd bob blwyddyn. Rydym hefyd yn mynychu tua 2,000 o alwadau brys sy'n troi allan i fod yn alwadau diangen.

Rydym yn gwneud gwaith atal tan helaeth trwy ymweld a phobl yn eu cartrefi, mynychu digwyddiadau, ymgysylltu a phlant a phobl ifanc, a gweithio gyda phartneriaid i addysgu a hysbysu cymunedau lleol. Rydym hefyd yn cynnal presenoldeb gweithredol yn y cyfryngau, gan gynnwys ar gyfryngau cymdeithasol.


Mae rhan arall o'n gwaith mewn rol gorfodi diogelwch tan, felly rydyn ni'n ymweld busnesau a gweithleoedd i sicrhau bod y bobl sy'n gyfrifol amdan yr adeiladau hynny'n cadw eu trefniadau diogelwch tan i fyny i afon.

Mae Gwasanaeth Tan ac Achub Gogledd Cymru yn lle proffesiynol a chyfeillgar i weithio. Rydym yn cynnig diwylliant cefnogol lle rydym yn gweithio'n galed i gynnal ein gwerthoedd craidd.

Gallwch ddarllen mwy am ein Gwerthoedd Craidd ar y dudalen nesaf. I gael rhagor o wybodaeth am y Gwasanaeth ewch i [wefan Gwasanaeth Tan ac Achub Gogledd Cymru]().



# Ein Gwerthoedd Craidd



# Gogledd Cymru: Lle i fyw, gweithio ac ymweld ag ef

O fewn rhanbarth Gogledd Cymru mae Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Wrecsam ac Ynys Môn. Mae gan bob sir rywbeth arbennig i'w gynnig, p'un a ydych chi'n chwilio am gyffro ac antur neu ddiwylliant a threftadaeth. Mae byw a gweithio yng Ngogledd Cymru'n cynnig amgylchedd ardderchog i unrhyw un sy'n ceisio gwell ansawdd bywyd.

Mae gan yr ardal, sy'n cael ei hystyried yn un o'r lleoedd mwyaf prydferth yn y DU, lawer i'w gynnig. Gan ei bod yn ardal o dirwedd eithriadol sy'n amrywio o draethau tywod hir a phentiroedd trawiadol i ddyffrynnoedd cysgodol, rhosydd agored a mynyddoedd garw, mae yma rywbeth i bawb. Mae twristiaeth yn cyfrannu'n helaeth at yr economi leol, gydag amrywiaeth eang o gyfleusterau ar draws y rhanbarth i ddenu gwahanol ymwelwyr i'r ardal bob blwyddyn. Mae'r rhain yn cynnwys llinellau sip cyffrous, parciau antur a chwaraeon dŵr, a theithiau cerdded mwy hamddenol i ddarganfod trefi a chefn gwlad yr ardal neu i ymweld â mannau hanesyddol a diwylliannol, gan gynnwys cestyll.

Mae Gogledd Cymru yn agos at natur ac yn cynnig digon o le awyr agored, ond mae hefyd o fewn cyrraedd i fwrlwm a phrysurdeb trefi a dinasoedd mawr Gogledd-orllewin Lloegr, fel Caer, Lerpwl a Manceinion. Mae'r cysylltiadau rheilffordd hefyd yn cysylltu arfordir Gogledd Cymru â dinasoedd mawr ar draws y DU, gyda threnau uniongyrchol yn mynd i Lundain (o fewn 3 – 4 awr), Birmingham a Manceinion ymysg eraill.

Mae bwyd a diod yn rhan bwysig o ddiwylliant Cymru gyda gwyliau bwyd a marchnadoedd yn digwydd ledled y rhanbarth i arddangos y bwydydd a'r diodydd gorau sydd gan Gymru i'w cynnig. Gan ddefnyddio cynnyrch lleol a thymhorol, o bysgod newydd eu dal i gig oen tyner lleol, caws, gwin, cwrw a jin, mae yma ddigonedd o leoedd bwyta at ddant pawb. Mae'r ardal yn cynnig bwytai bwyd cain, tafarndai gastro a bistros yn ogystal â thafarndai cefn gwlad, ystafelloedd te a chaffis.

Yn ôl Cyfrifiad 2021, mae gan Gymru boblogaeth o ychydig dros 3.1 miliwn, gyda thua 18% o'r boblogaeth yn siaradwyr Cymraeg. Mae'r Cymry'n angerddol am yr iaith, chwaraeon a diwylliant ac mae cystadlaethau cerddoriaeth, barddoniaeth a chelfyddyd yn digwydd yn flynyddol – sef yr Eisteddfodau. Gwyliau diwylliannol ydyn nhw sy'n cael eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn darparu llwyfan cenedlaethol ar gyfer cerddoriaeth, dawns, llenyddiaeth, celfyddydau gweledol a pherfformio. Er bod y Gymraeg yn rhan bwysig o'r Eisteddfod, mae'r digwyddiadau'n agored i bawb ac felly nid oes rhaid i chi fod yn siaradwr Cymraeg i'w mynychu a'i mwynhau. Bydd pobl o bob oed a gallu, a dysgwyr Cymraeg, yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn Eisteddfodau, gydag Eisteddfod Ryngwladol Llangollen yn cael ei chynnal bob blwyddyn ar ddechrau Awst. Mae hon yn dod â phobl o bob cwr o'r byd at ei gilydd i ddathlu'r gwahanol ddiwylliannau, cerddoriaeth a chelfyddydau mewn un lle.



# Y Swydd

Gwaith yr Uwch Swyddog Cydymffurfio yw cyflwyno a gorfodi deddfwriaeth diogelwch tân mewn busnesau ac mewn eiddo nad ydynt yn gartrefi. Bydd disgwyl i'r sawl a benodir roi cymorth technegol manwl ynghylch materion diogelwch tân, arolygiadau diogelwch tân, ac archwiliadau diogelwch ar gyfer yr holl safleoedd a reoleiddir, gan gynnwys safleoedd cymhleth a rhai uchel eu risg.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gyfathrebwr effeithiol ac yn gallu gweithio ar ei liwt ei hun i ymchwilio ac i ddadansoddi problemau, gan ddefnyddio ystod o adnoddau i ganfod datrysiadau priodol.  Byddant angen ymagwedd ragweithiol a hunangymhellol, ynghyd â sgiliau rhyngbersonol da i ddatblygu perthynas waith effeithiol gydag unigolion a chyda grwpiau mewnol ac allanol.

Bydd angen i ymgeiswyr arddangos (gyda thystiolaeth) y sgiliau fel y'u hamlinellir yn y disgrifiad swydd a'r fanyleb person, gan gynnwys y gofynion allweddol canlynol:

Bod â thystysgrif IQ Lefel 4 mewn Diogelwch Tân neu gyfwerth ac wedi dangos eu bod yn gymwys mewn swydd Cynghorydd Diogelwch Tân neu swydd gyfwerth. Bod â diploma IQ Lefel 4 mewn Diogelwch Tân neu gyfwerth, neu ei ennill tra byddant yn y swydd. Bod ag achrediad neu gofrestriad gyda chorff proffesiynol (fel IFE Graddedig ac Archwilydd Cofrestredig), neu ei gael tra byddant yn y swydd, er mwyn gallu arddangos eu hagwedd broffesiynol a'u hymroddiad i barhau i fod yn gymwys. Bod â chofrestriad fel Technegydd Peirianneg gyda'r Cyngor Peirianneg drwy gorff proffesiynol (achrediad trydydd parti), fan lleiaf, neu gael cofrestriad tra byddant yn y swydd. Gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o Orchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 ac o asesu risgiau a chydymffurfiaeth tân rheoleiddiol drwy archwilio ac arolygu. Gwybodaeth sylweddol am y prosesau a'r canllawiau sy'n berthnasol i asesiadau risg tân rheoleiddiol a gwerthuso peryglon a risgiau tân.



# Beth allwn gynnig i chi

## Pay

Gradd GTAGC 07

Cyflog: Dechrau ar £33,024 yn codi i £35,745

## Oriau gwaith

Mae'r swydd hon yn seiliedig ar weithio 37 awr yr wythnos, o ddydd Llun i ddydd Gwener.

## Lleoliad

Mae'r tîm wedi'i leoli yn Wrecsam a Sir y Fflint. Efallai y bydd angen mynd i wahanol leoliadau Gwasanaeth Tân, felly efallai y bydd angen teithio i safleoedd eraill, yng Ngogledd Cymru neu'r DU yn ehangach.

Rydym hefyd yn cynnig llawer iawn o hyblygrwydd ac rydym yn ceisio cymaint â phosibl i gefnogi staff i gydbwyso eu gwaith a'u bywyd cartref. Mae gennym bolisi gweithio ystwyth i hwyluso gweithio rhithwir a gweithio gartref lle bo hynny'n ymarferol ar gyfer y rôl, a gellir trafod hyn ymhellach yn ystod y cyfweliad.

## Manteision y swydd

- Hawl gwyliau blynyddol hael, yn dechrau ar 25 diwrnod y flwyddyn, ynghyd â gwyliau cyhoeddus
- Cynllun Oriau Hyblyg sy'n galluogi staff i weithio'n hyblyg
- Darperir gwisg Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
- Mynediad at Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol y mae'r cyflogwr yn cyfrannu ato
- Byddwn yn rhoi hyfforddiant, cefnogaeth ac arweiniad i chi er mwyn datblygu eich potensial
- Cefnogaeth iechyd, ffitrwydd a lles, gan gynnwys iechyd galwedigaethol, cefnogaeth cydweithwyr, hyrwyddwyr iechyd meddwl, therapïau corfforol a mynediad i gampfeydd y Gwasanaeth
- Amrywiaeth o fanteision ychwanegol megis cynllun beicio i'r gwaith a mynediad at ostyngiadau gan gannoedd o fanwerthwyr a darparwyr hamdden a gwasanaethau.

# Disgrifiad Swydd

| | |
|---|---|
| **Teitl y Swydd** | Uwch Swyddog Cydymffurfio |
| **Yn atebol i** | Rheolwr Cydymffurfio |
| **Lleoliad** | Wrecsam a Sir y Fflint |
| **Gradd** | GTAGC 07 |

## Diben y Swydd yn Gyffredinol

Prif ddiben y swydd hon yw sicrhau bod eiddo cymhleth ac uchel ei risg yn cydymffurfio â'r rheoliadau. Mae'n bosibl y bydd deilydd y swydd yn gweithio ar safleoedd is o ran risg hefyd.

Bydd gan ddeilydd y swydd bwerau gorfodi a'r gallu i gyflwyno hysbysiadau cyfreithiol ffurfiol, ac o ganlyniad bydd rhaid iddynt fodloni'r gofynion o ran cymwysterau, sgiliau a gwybodaeth a ddiffinnir yn Fframwaith Cymwyseddau Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân ar gyfer Rheoleiddwyr Diogelwch Tân.

Mae'n bosibl hefyd y bydd deilydd y swydd yn cefnogi Diogelwch Tân Busnesau trwy roi cyngor i'r gymuned fusnes ar fesurau diogelwch tân cyffredinol a lleihau larymau tân diangen, cwynion am adeiladau a chynnal archwiliadau ar ôl tân.

Mae'r swydd yn bodoli er mwyn helpu i gyflawni dyletswydd statudol y Gwasanaeth i orfodi deddfwriaeth diogelwch tân ac i leihau risg yn y gymuned. Mae hyn yn cynnwys cymryd rhan mewn digwyddiadau hyrwyddo diogelwch tân o bryd i'w gilydd, yn ôl yr angen.

Bydd deilydd y swydd yn cysylltu â chydweithwyr ar draws y swyddogaeth Diogelwch Tân Busnesau, â Rheolwyr Gorsafoedd a phersonél eraill yr ochr weithredol, ac ag Awdurdodau Lleol ac asiantaethau rheoleiddio eraill, yn unol â pholisi a gweithdrefnau'r Gwasanaeth.

Bydd angen i ddeilydd y swydd gael achrediad neu gofrestriad gyda chorff proffesiynol (fel IFE Graddedig ac Archwilydd Cofrestredig), neu fod yn barod i weithio tuag at yr achrediadau hyn, er mwyn arddangos eu hagwedd broffesiynol a'u hymroddiad i barhau i fod yn gymwys.

## Prif Ddyletswyddau A Chyfrifoldebau

1. Cynllunio a chynnal archwiliadau ac arolygiadau diogelwch tân ym mhob safle a reoleiddir, gan gynnwys safleoedd cymhleth ac uchel eu risg, yn unol â pholisi a gweithdrefnau'r Gwasanaeth, a hynny er mwyn hyrwyddo a gorfodi cydymffurfiaeth â'r gofynion statudol.
2. Rhoi cyngor ac arweiniad am ddiogelwch tân, yn unol â'r ddeddfwriaeth dân gyfredol a pholisi'r Gwasanaeth, gan gynnwys ymateb i ymholiadau gan berchnogion busnes/pobl gyfrifol, er mwyn eu helpu i gydymffurfio â gofynion diogelwch tân a hyrwyddo cydnerthedd busnesau.
3. Ymgynghori a gweithio gydag awdurdodau gorfodi eraill, gan gynnwys ymateb i gyflwyniadau a wneir i ymgyngoriadau diogelwch tân statudol, yn unol â pholisi'r Gwasanaeth a gofynion statudol.
4. Cymryd camau gorfodi diogelwch tân ffurfiol ac anffurfiol yn unol â pholisi a gweithdrefnau'r Gwasanaeth er mwyn cefnogi egwyddorion y Model Rheoli Gorfodaeth.
5. Helpu ag ymchwiliadau i droseddau posibl dan Orchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005, drwy baratoi ffeiliau achos, cynorthwyo gyda rhybuddion PACE (Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol) a chyfweld tystion, cymryd a pharatoi datganiadau a chasglu tystiolaeth.

6. Cynllunio a chymryd rhan mewn seminarau, gweithdai, cyfarfodydd a digwyddiadau rhwydweithio busnes ynghylch diogelwch tân, gan ymgysylltu â rhanddeiliaid busnes lleol i hyrwyddo dealltwriaeth o gyfrifoldebau statudol, cydnerthedd busnes a diogelwch cymunedol.
7. Rhoi cymorth a chyngor i Benaethiaid Gorsafoedd a phersonél gweithredol ar faterion diogelwch tân.
8. Darparu hyfforddiant diogelwch tân a chefnogi eraill i ddysgu a datblygu drwy gyfrwng amrywiaeth o weithgareddau.
9. Cynnal gweithgareddau sicrhau ansawdd mewnol gan gynnwys monitro ac asesu gwaith eraill ar ddiogelwch tân, a hynny er mwyn sicrhau ansawdd gwasanaeth ac i wella safonau'n barhaus yn unol â chanllawiau cenedlaethol a pholisi'r Gwasanaeth.
10. Cyfrifoldeb dros ddiweddaru, adfer a phrosesu gwybodaeth electronig yn gywir ar y system gwybodaeth reoli diogelwch tân, a chynnal cofnodion a ffeiliau diogelwch tân eraill yn unol â pholisi a gweithdrefnau'r Gwasanaeth.
11. Cynnal cymhwysedd yn y swydd trwy wneud gweithgareddau datblygiad proffesiynol parhaus, gan gynnwys mynd ar gyrsiau hyfforddi/datblygiad personol yn ôl y gofyn.
12. Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau eraill o lefel a chyfrifoldeb tebyg yn ôl y gofyn.
13. Arfer ac annog cydraddoldeb, amrywiaeth a thrin yr holl staff a chwsmeriaid yn deg, o fewn cwmpas y swydd.
14. Rhaid i ddeilydd y swydd gydymffurfio â deddfwriaeth iechyd a diogelwch berthnasol a pholisïau a gweithdrefnau Gwasanaeth Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru wrth gyflawni ei ddyletswyddau.
15. Cwblhau'r holl adroddiadau, hysbysiadau cyfreithiol a gwaith gweinyddu a chofnodi TG fel sy'n ofynnol.
16. Ymgymryd ag unrhyw ddatblygiad technegol a phrosesau a allai fod yn ofynnol er mwyn bod yn gymwys i gynnal archwiliadau ac arolygiadau a phob tasg arall gysylltiedig. Bydd hyn yn cynnwys y gofyniad i gwblhau Diploma Lefel 4 mewn Diogelwch Tân (Archwilwyr Tân) yn llwyddiannus ac ennill achrediad trydydd parti.
17. Blaenoriaethu a rheoli llwyth gwaith gan sicrhau eu bod yn bodloni terfynau amser.
18. Ateb i, a chymryd cyfarwyddyd gan, y Rheolwr Llinell a/neu unrhyw berson a enwebir fel mentor i ddeilydd y swydd.
19. Cymryd rhan mewn archwiliadau a chyfarfodydd rheoli perfformiad Diogelwch Tân Busnesau.
20. Ceisio arweiniad ar unrhyw fater Diogelwch Tân Busnesau y mae angen iddynt ymdrin ag ef ac sydd y tu hwnt i'w cymhwysedd presennol.
21. Mynd ar unrhyw gyrsiau neu sesiynau datblygu eraill a ddewisir ar eu cyfer er mwyn gwella eu cymhwysedd cyffredinol.
22. Cynnal asesiadau risg tân o eiddo GTAGC a chysylltu ag adrannau eraill i hwyluso'r gwaith o gydymffurfio'n gyfreithiol â'r Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân).
23. Cydymffurfio â rheoliadau'r Gwasanaeth ac ymddwyn mewn modd sy'n gyson ag amcanion a gwerthoedd craidd y Gwasanaeth wrth ddelio â chydweithwyr, cyrff rheoleiddio eraill a chleientiaid.

## Cyfrifoldeb Goruchwylio

Bydd y rôl yn cynnwys dirprwyo dyletswyddau a goruchwylio Swyddogion Cydymffurfio.

## Cyfrifoldeb Ariannol

Dim

## Cysylltiadau y Tu Allan i'w His-adran Eu Hunain

Bydd disgwyl i ddeilydd y swydd gysylltu ag awdurdodau rheoleiddio eraill yn rheolaidd, gan gynnwys yr awdurdod lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru, AGGCC, GIG Cymru a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch fel y bo'n briodol.

## Gofynion Iaith

Sgiliau Cymraeg – Lefel 2 (i'w gyflawni o fewn 12 mis o ymgymryd â'r swydd)

## Camau Gwirio Cyn Cyflogi / Gofynion Penodol

DBS Arferol

## Hyfforddiant Gorfodol

Bydd gofyn i ddeilydd y swydd gwblhau'r rhaglen ddatblygu sy'n gysylltiedig â'r rôl, a fydd yn cynnwys:


Diploma Lefel 4 mewn Diogelwch Tân ac ennill achrediad trydydd parti.

## Amodau Gwaith

Swyddfa'r Sir / gweithio ystwyth gyda'r gofyniad i gynnal archwiliadau ac arolygiadau mewn amrywiaeth eang o safleoedd cyhoeddus a masnachol; bydd hyn yn golygu gweithio yn yr awyr agored a'r tu mewn. Rhywfaint o oriau anghymdeithasol er mwyn cyflawni'r gwaith uchod pan fo angen.

## Arall

Dim



# Manyleb y Person

| | |
|---|---|
| **Cymwysterau, Gwybodaeth a Phrofiad** | **Hanfodol**<br>Y nodweddion na ellid penodi deiliad y swydd hebddynt |
| | TGAU Saesneg Iaith a Mathemateg ar radd 4 neu uwch (neu gyfwerth). |
| | Bod â thystysgrif IQ Lefel 4 mewn Diogelwch Tân neu gyfwerth ac wedi dangos eu bod yn gymwys mewn swydd Cynghorydd Diogelwch Tân neu swydd gyfwerth. |
| | Bod â diploma IQ Lefel 4 mewn Diogelwch Tân neu gyfwerth, neu ei ennill tra byddant yn y swydd |
| | Bod ag achrediad neu gofrestriad gyda chorff proffesiynol (fel IFE Graddedig ac Archwilydd Cofrestredig), neu ei gael tra byddant yn y swydd, er mwyn gallu arddangos eu hagwedd broffesiynol a'u hymroddiad i barhau i fod yn gymwys. |
| | Bod â chofrestriad fel Technegydd Peirianneg gyda'r Cyngor Peirianneg drwy gorff proffesiynol (achrediad trydydd parti), fan lleiaf, neu gael cofrestriad tra byddant yn y swydd. |
| | Trwydded yrru lawn heb unrhyw faterion ar y gweill |
| | Gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o Orchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 ac o asesu risgiau a chydymffurfiaeth tân rheoleiddiol drwy archwilio ac arolygu. |
| | Gwybodaeth sylweddol am y prosesau a'r canllawiau sy'n berthnasol i asesiadau risg tân rheoleiddiol a gwerthuso peryglon a risgiau tân. |
| | Dealltwriaeth o egwyddorion ac arferion cydraddoldeb ac ymrwymiad iddynt |
| | Dealltwriaeth o egwyddorion ac arferion rheoli ansawdd a gofal cwsmeriaid ac ymrwymiad iddynt |
| | Dealltwriaeth o Iechyd a Diogelwch yn y gweithle ac ymrwymiad i'r arferion |
| | Dealltwriaeth o bwysigrwydd sicrhau cyfrinachedd a diogelwch gwybodaeth, gan gynnwys ymwybyddiaeth o egwyddorion y Deddfau Diogelu Data a Rhyddid Gwybodaeth |
| | Parodrwydd i gael eich galw i fod ar ddyletswydd y tu allan i oriau swyddfa er mwyn archwilio eiddo mewn achosion lle gallai Hysbysiad Gwahardd fod yn briodol. |
| | Ymwybyddiaeth o weithgareddau a swyddogaethau craidd Gwasanaeth Tân ac Achub yn genedlaethol ac yn lleol |
| | Sgiliau technoleg gwybodaeth o safon. |
| | **Dewisol**<br>Nodweddion ychwanegol y gellir eu defnyddio i ddewis rhwng ymgeiswyr sy'n bodloni'r holl feini prawf hanfodol |
| | Tystysgrif Rheoli'n Ddiogel IOSH neu gyfwerth. |
| | Wedi dangos eu bod yn gymwys mewn swydd Arolygydd Diogelwch Tân neu gyfwerth. |
| | Meddu ar gymwysterau diogelwch tân arbenigol eraill e.e. Gradd mewn Peirianneg Tân, Modiwl Cartrefi Gofal ac ati. |
| | Meddu ar brofiad sylweddol mewn rôl Arolygydd Diogelwch Tân neu gyfwerth. |

| | |
|---|---|
| **Sgiliau** | **Hanfodol**<br>Y nodweddion na ellid penodi deiliad y swydd hebddynt |
| | Y gallu a'r hyder i gyfathrebu'n effeithiol (ar lafar ac yn ysgrifenedig) ynghyd â sgiliau rhyngbersonol o safon uchel, gan ystyried y gynulleidfa darged, y neges i'w chyfleu a'r canlyniadau a ddymunir. |
| | Gallu gweithio ar eich liwt eich hun, ymchwilio a dadansoddi problemau gan ddefnyddio ystod o adnoddau a chanfod datrysiadau priodol. |
| | Y gallu i greu ac i weithredu cynlluniau effeithiol er mwyn bodloni anghenion cyflenwi'r gwasanaeth, boed yn rhai gwirioneddol neu'n rhai a ragwelir. |
| | Y gallu i gynllunio a darparu hyfforddiant ac i gefnogi dysg a datblygiad eraill. |
| | Y gallu i sgwrsio'n naturiol ag aelodau'r cyhoedd a rhoi cyngor mewn Saesneg llafar cywir. |
| | Bydd angen i ymgeiswyr fod â dull rhagweithiol a hunangymhelliant, a bydd angen iddynt allu gweithio fel rhan o dîm ac ar eu liwt eu hunain. |
| | Y gallu i feithrin perthynas waith effeithiol gydag unigolion ac â grwpiau mewnol ac allanol. |
| | Y gallu i flaenoriaethu gwaith ac i fodloni terfynau amser gan ymateb yn gadarnhaol o dan bwysau. |
| | Ymroddiad i weithio'n hyblyg o fewn amodau'r gwasanaeth pan fo angen. |
| | DBS (safonol) boddhaol. |
| | Gallu cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg (Lefel 2) *(Dealltwriaeth fras o sgyrsiau Cymraeg yn y gweithle. Gallu ymateb i geisiadau syml sy'n gysylltiedig â'r swydd a chynnig cyngor yn eu cylch. Gallu gofyn cwestiynau syml a deall ymatebion syml. Gallu mynegi barn mewn ffordd gyfyngedig cyn belled â bod y pwnc yn gyfarwydd. Deall cyfarwyddiadau pan ddefnyddir iaith syml).* |

*Gofynnir am dystiolaeth o gymwysterau a'i dilysu cyn cadarnhau'r penodiad

**Sylwer: Bydd rhaid i chi allu dangos eich bod yn bodloni'r holl feini prawf hanfodol er mwyn cyrraedd y rhestr fer ar gyfer y swydd hon.**

# Sgiliau Cymraeg

Yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, credwn y dylid trin y Saesneg a'r Gymraeg ar sail cydraddoldeb wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru.

Rydym yn ymfalchïo ein bod wedi cymryd mater iaith o ddifrif dros nifer o flynyddoedd. Drwy gydnabod ein dyletswyddau moesol a chyfreithiol i ddiogelu treftadaeth ddiwylliannol yr ardal ac i fodloni disgwyliadau'r gymuned leol, rydym hefyd yn cydnabod manteision gwasanaeth cadarnhaol cynnal ein busnes cyhoeddus yn y ddwy iaith. Mae achub bywydau a lleihau risg wrth wraidd ein cenhadaeth - mae'r mater iaith yn hanfodol i'w lwyddiant.

Gofyniad Cymraeg y swydd hon yw lefel 2 ac mae'r sgiliau gofynnol wedi'u nodi isod.

| Maes sgil | Gofynion Safonau'r Iaith Gymraeg |
|---|---|
| **Siarad / Gwrando** | ▪ Yn gallu deall cynnwys sgyrsiau yn y gwaith.<br>▪ Yn gallu ymateb i geisiadau syml sy'n gysylltiedig â swydd a cheisiadau am wybodaeth ffeithiol.<br>▪ Yn gallu gofyn cwestiynau syml a deall atebion syml.<br>▪ Yn gallu mynegi barn mewn ffordd gyfyngedig cyn belled â bod y pwnc yn gyfarwydd.<br>▪ Gallu deall cyfarwyddiadau pan ddefnyddir iaith syml. |

Bydd asesiad Cymraeg byr yn cael ei gynnal ar ddechrau cyflogaeth a bydd ymgeiswyr nad ydynt eisoes yn siarad Cymraeg i lefel 2 yn cael 12 mis o'u penodi i'r rôl i gyflawni hyn.

Rydym yn cydnabod bod dysgu iaith yn cymryd amser ac ymrwymiad ac mae'r gofyniad hwn yn ychwanegol at ddysgu rôl newydd a chefnogir yr ymgeisydd llwyddiannus i gyflawni'r lefel ofynnol.



# Sut i ymgeisio

Mae'r ffurflenni cais i'w gweld ar wefan y Gwasanaeth Tan ac Achub Gogledd Cymru ac fe ddylid dychwelyd y Ffurflenni Cais ar e-bost i recruitment@tangogleddcymru.llyw.cymru neu drwy gysylltu a'r Tim Recriwtio ar 01745 535281.

Gofynnir i chi beidio danfon eich CV gyda'r Ffurflen Gais gan mai dim ond y wybodaeth a roddir ar y Ffurflen Gais fydd yn cael ei ddefnyddio wrth greu rhestr fer.

Pan fyddwch yn cwblhau eich cais, gofynnir i chi ymgyfarwyddo gyda'r Disgrifiad Swydd a'r Manylion Person yn y pecyn gwybodaeth yma fel eich bod yn deall y gofynion ynglŷn a chymwysterau, sgiliau a phriodoleddau hanfodol ar gyfer y rôl. Bydd angen i chi ddangos eich bod yn bodloni'r holl feini prawf hanfodol sydd ym manyleb y person er mwyn cyrraedd y rhestr fer yn y cam nesaf. Mae eich cyfle o fod ar y rhestr fer am gyfweliad yn seiliedig ar y wybodaeth a roddwch ar eich ffurflen gais.

Byddai'n ddefnyddiol pe gallech roi gwybod i ni mewn da bryd os hoffech chi i ni wneud unrhyw addasiadau rhesymol i chi.

Sicrhewch eich bod yn anfon eich cais cyn y dyddiad cau gan nad yw ceisiadau hwyr yn cael eu derbyn.

Os oes ydych yn cael unrhyw broblem cael gafael ar y ffurflen gais neu ei chwblhau, cysylltwch â'r tîm Recriwtio: recruitment@northwalesfire.gov.wales neu ffoniwch 01745 535 281.

## Gwybodaeth bellach

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn a'r rôl hon neu os hoffech sgwrs anffurfiol cyn ymgeisio, mae croeso i chi gysylltu a Tim Owen, Pennaeth Amddiffyn ar 07748 631 710.

| | |
|---|---|
| **Dyddiad cau** | **12:00 ar 15/07/2024** |

Rydym yn gyflogwr cyfle cyfartal ac yn croesawu ceisiadau gan bob rhan o'r gymuned. Rydym wedi ymrwymo i roi cyfle cyfartal i'r holl staff ac mae ceisiadau yn cael eu hannog gan unigolion waeth beth fo'u sefyllfa o ran oedran, anabledd, rhywedd, ailbennu rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred a phriodas a phartneriaethau sifil.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau yn y Gymraeg a'r Saesneg a byddwn yn ymateb yn gydradd i'r naill iaith ac yn ymateb yn eich iaith ddewisol heb oedi. Ni fydd cais a gyflwynir yn y Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service